



TGAU

3020U20-1CH



S24-3020U20-1CH

DYDD MAWRTH, 23 EBRILL 2024 – PRYNHAWN
TUESDAY, 23 APRIL 2024 – AFTERNOON

CYMRAEG AIL IAITH – Uned 2
WELSH SECOND LANGUAGE – Unit 2

PRAWF CH (Diwrnod 2)
TEST CH (Day 2)

CYFATHREBU AG ERAILL
COMMUNICATING WITH OTHER PEOPLE

COPI'R YMGEISYDD
CANDIDATE'S COPY

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dewiswch **un** dasg.

Cewch hyd at 10 munud i baratoi'r dasg hon.

Gallwch wneud nodiadau a thrafod gyda'ch partner/grŵp yn ystod y cyfnod hwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron neu unrhyw adnodd arall wrth baratoi.

Cyn gadael yr ystafell arholi rhaid i chi roi'r daflen hon ac unrhyw nodiadau a wnaethoch yn ystod y 10 munud i'r athro/athrawes sy'n cynnal y prawf.

INFORMATION FOR CANDIDATES

Choose **one** task.

You have up to 10 minutes' preparation time.

You may make notes and discuss with your partner/group during this time.

The use of dictionaries or any other resource is forbidden during preparation.

Before leaving the examination room this sheet and any notes you made during the 10 minutes must be given to the teacher conducting the test.

TASG 1

TECHNOLEG – GALLU BYW HEBDDO?

Dw i'n cytuno bod technoleg yn bwysig iawn; ond ydy pethau'n mynd yn rhy bell?


Ap arian parod.... car yn gyrru ei hun robot i lanhau'r tŷ!
Beth nesa?

Rob



ALLECH CHI FYW HEB:

- ffôn symudol
- cyfrifiadur/gliniadur
- teledu smart
- Fitbit
- AirPods



Ydy hi'n bwysig cael y dechnoleg ddiwedddara?

Yn fy marn i, mae defnyddio'r holl dechnoleg yn effeithio ar yr amgylchedd!

Sam

Mae cael y ffôn diwedddara a'r gliniadur diwedddara yn bwysig iawn i fi. Mae pwysau i fod fel pawb arall!

Lisa




Ffôn symudol 1980




Cyfrifiadur 1990

Mae nain wedi cael teledu newydd. Dydy hi ddim yn deall sut i'w ddefnyddio yn iawn! Fydd nain byth eisïau mynd ar Netflix, Prime na Disney – does ganddi ddim mynediad i'r we yn y tŷ beth bynnag!


Mat



Apiau i helpu gyda gwaith ysgol fel Bitesize, apiau banc i'n helpu gydag arian, apiau iechyd.... bwyd.... llyfrau.... cerddoriaeth....



Wyt ti wedi cael dy fwlio ar y we?



TASG 2 PROBLEMAU POBL IFANC

Os oes problem gyda fi dw i'n gallu siarad gyda fy ffrendiau neu mam. Dw i'n lwcus bod 'da fi rhywun i wrando.

Kate



BETH?

- gwaith ysgol
- ffrendiau
- rhieni
- iechyd – deiet, smygu, alcohol
- bod yn un o'r criw
- y dyfodol



Dw i ddim eisiau bod fel pawb arall. Dw i eisiau gwisgo beth dw i eisiau heb neb yn dweud pethau cas amdana i.

Magda



Mae gen i ffrendiau da ac rydyn ni'n gwneud popeth gyda'n gilydd. Yn anffodus, dydyn nhw ddim yn hoffi'r ysgol a dydyn nhw ddim yn gweithio'n galed. Dw i'n hoffi'r ysgol ac eisiau gwneud yn dda yn TGAU ond dydyn nhw ddim yn deall!

Bryn



MAE FY CHWAER FACH YN NIWSANS! MAE HI EISIAU MYND I BOBMAN GYDA FI!

Shona




Y broblem fwyaf sy 'da fi yw gwaith ysgol! Dw i'n deall y gwaith ond does dim amser 'da fi. Dw i'n gweithio pob dydd Sul yn y garej gyda fy nhad a dw i'n ymarfer rygbi pob nos Lun a nos Fercher a chwarae gêm ar ddydd

Sadwrn.


Aled

Dw i'n ceisio bwyta'n iach ond mae'n anodd. Mae pwysau gwaith ysgol yn gwneud i mi fwyta sothach – creision, siocled, bisgedi.... McDonalds!

Luca



Ydy pobl ifanc yn yfed alcohol i ymlacio?



Trowch y dudalen.
Turn over.

AR ÔL TGAU – GWAITH NEU ADDYSG?

Sut ydych chi'n dewis beth i'w wneud? Mae MOR anodd!

Pasiodd fy mrawd 10 TGAU – A* ac A i gyd! Ar ôl Lefel A cymrodd e flwyddyn gap ac aeth i Affrica i wneud gwaith gwirfoddol. Nawr mae e ym Mryste yn astudio i fod yn beiriannydd. Hoffwn i wneud Lefel A hefyd ac yna mynd i Ewrop.

Kate




Canlyniadau TGAU



Mae fy chwaer wedi bod yn cynilo ar gyfer mynd i'r coleg ond nawr dydy hi ddim eisiau mynd! Bydd mam a dad yn siomedig.

James



Dw i wedi blino ar yr ysgol – gwaith cartref, arholiadau, y wisg, rheolau Mae gwaith gyda fi yn barod a fydda i byth yn darllen llyfr eto!

Molly



Dw i'n edrych ymlaen i fynd i ddosbarth 6. Astudio fy hoff bynciau, ychydig mwy o amser rhydd, ystafell i ni ein hunain a dim gwisg ysgol!

Liam


Hoffwn i aros yn yr ysgol. Does dim gwaith i'w gael beth bynnag!

Mike

Dw i a Beth yn mynd i ddosbarth 6, mae Lloyd a Jen yn mynd i'r coleg ac mae Charlotte wedi cael gwaith. Bydd yn od iawn!

Wendy

Ar ôl TGAU?



☐ Gwaith ☒ Lefel A ☐ Prentisiaeth

Dw i'n mynd i'r coleg i wneud cwrs trydanwr. Mae prentisiaeth ar gael. Dw i'n edrych ymlaen. Un diwrnod bydd busnes fy hun gyda fi!

Ffion



Oes gwaith i'w gael?